**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Hydref 2025 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) , Lynford Thomas, Alan Henson, Hywel Ifans, Lyn Williams, Dan Evans, Wendy Lloyd Lewis, Euros Davies, Gerwyn Owen,Melinda Williams, Glyn Davies

1. **YMDDIHEURIADAU –** Y Cyng. Sir, Ceris Jones
2. PERSONOL – dim materion personol
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL –** dim i'w datgelu
4. **CADARNHAU COFNODION 02/09/25**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan y Cyng.Euros Davies a'u derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**
   **i.12d Pontydd Llwybr Cerdded Cribyn.** Derbyniwyd ymateb gan Steve Davies y Ranger a gadarnhaodd bod gwaith adnewyddu wedi cwblhau a bydd yn dychwelyd i 'neud ychydig o waith cymennu yn yr Hydref.
   **ii. 12.c.(Hydred 2024) Bont Glanafon. (666358).** Y bont wedi cael ei chymennu a'I thrwsio er bod rhai mannau sydd angen sylw o hyd.
6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**
   Derbyniwyd adroddiad yn absenoldeb Ceris yn nodi'r ymateb a dderbyniodd gan y Cyngor Sir parthed arwyddion cerddwyr yng Nghribyn. Oherwydd yr 20mya a nad oes unrhyw ddigwyddiad wedi ei gofnodi am ddamwa in yn ymwneud â cherddwyr yn y pentre nid oes angen gosod arwyddion yng Nghribyn. Nododd hefyd ei bod wedi cysylltu a PC Liz Jenkins parthed cyflymder traffig yn Felinfach.
7. **ADRODDIAD YR HEDDLU**
   Cawsom adroddiad cynhwysfawr gan PC Liz Jenkins yn nodi nifer o faterion cyffredinol yn yr ardal ers ein cyfarfod diwethaf. Bu hefyd yn son am **Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 11-18 Hydref** a dosbarthwyd taflen yn nodi'r gwahanol fathau o droseddau casineb gan bwysleisio pwysigrwydd adrodd ar unrhyw achosion sy'n peri gofid. Bydd y Clerc yn rhannu'r dolenni gwybodaeth gyda'r aelodau. By hefyd yn son am y **SELECTA DNA Kit sef** pecyn marcio eiddo fforensig DNA i farcio offer, peiriannau ac eiddo hanfodol i helpu i atal troseddau gwledig. Maen tar gael ar y wêam tua £40 ond bydd hi'n fodlon mynd mas am ddim at unrhyw ffarm sydd yn gwneud cais. Hefyd soniodd am y system DPP Connects/Cyswllt Dyfed

Powys. Gwasanaeth negeseuon e-bost hawdd am ddim sy'n caniatáu i swyddogion lleol eich hysbysu am faterion yn eich ardal, sy'n berthnasol i chi. Rhaid Cofrestru i dderbyn hysbysiadau ar gyfer eich ardal leol am weithgarwch plismona cyffredinol, troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, digwyddiadau, negeseuon atal a mwy.

## 8. CYLLID

i. Tal y Clerc mis Med £228.73
ii. Lloyds Banc Ffioedd : **10/08/25 – 09/09//25** **£4.25** (4 siec @0.50c – gostyngiad o 1.52) 2 x Electronic Payments 0.20c a £4.25
iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif y Cadeirydd **10/08/25 – 09/09/25** £**4.25**
iv. ICO - £52.00
v. Cymdeithas y Cymod £30 am bapis gwyn + £5 tuag at y gost postio. Cyfanswm o £35.00

## 9. ADRODDIAD CYFARFOD RHANBARTHOL UN LLAIS CYMRU 29/9/25

Cyfarfod ar lein a fynychwyd gan y Clerc. Cafwyd cyflwyniad gan Chwarae Cymru a thrafodaeth am y newid ffiniau. Nododd nifer o fynychwyr eu hanfodlonrwydd am y ffaith nad oedd eu sylwadau wedi cael eu hystyried ac yn anfodlon â'r newidiadau. Nodwyd hefyd ei bod hi'n argyfyngus ar Un Llais Cymru oherwydd cyn lleied o'r aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd a bod y Cyfarfod Blynyddol wedi gorfod cael ei ohirio. Awgrymodd Eleri (ein Clerc) y dyali Un Llais Cymru ymgymryd â phrosiect ymgysylltu â'r aelodaeth i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

## 10. CYFARFOD CYNLLUNIO CYNEFIN 30/9/25

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu cwmni o Abergavenny i greu Cynllun Cynefin a r gyfer 13 o bentrefi'r Sir gan gynnwys Felinfach ac Ystrad. Bu'r Cynhg. Lynford Thomas a Glyn Davies, ynghyd â'r Clerc mewn cyfarfod â Chris Jones o'r cwmni i roi braslun o Felinfach ac Ystrad a dechrau'r sgwrs am unrhyw anghenion i wella gwasanaethau neu beth sydd gan y pentre' i gynnig i'w preswylwyr. Y cam nesa yw trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y pentre. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd cynnig yr 11eg** o Dachwedd, sef noson ein cyfarfod nesa ac i newid y lleoliad o Gribyn i Neuadd Felinfach.

## 11. YSGOLION DIHEWYD A FELINFACH

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb I fynegi diddordeb mewn caffael safleodd yr ysgolion. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr **penderfynwyd** na fyddai diddordeb gan y Cyngor Cymuned i gaffael yr adeiladau ond bod ganddo ddiddordeb i drafod opsiynau amgen posib o'u defnydd o fewn y gymuned (ar wahân i greu canolfannau cymunedol nad oes eu hangen yn y ddau bentre dan sylw**). Penderfynwyd** defnyddio'r cyfle a benderfynwyd ym Mhwynt 10 i ymgynghori â'r cyhoedd ac i gywain syniadau posib i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w hystyried.

## 12. CYNLLUNIO – dim I'w drafod

## 13. GOHEBIAETH

I. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan yr Urdd am y rhodd o £25 tuag at y Gronfa Cyfle I Bawb.
II. Derbyniwyd llythyr gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu yn datgan bod Ifan Charles wedi ei benodi'n Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys.

## 14. UNRHYW FATER ARALL

a. Archebwyd torchau ar gyfer Sul y Cofio a gynhelir ar 9fed Tachwedd. Archebwyd hefyd pabis gwyn.
b. **Diffibrilwyr.** Marc Gower o'r Gwasanaeth Ambiwlans wedi bod yn sorto'r diffibs. o'dd dan ofal Michael. Mae Felinfach wedi cal cabinet newydd a pads newydd. Mae Fronfelen hefyd wedi cael pads newydd a Cribyn wedi ei gofrestru ar y Circuit Mae'r Cyng. Lynford Thomas wedi ei gofrestru fel Ceidwad deffib. Felinfach
c. Oherwydd bod y gwaith wedi dechrau ar Ysgol Cribyn, cynhelir cyfarfod mis Tachwedd a mis Mawrth yn Festri Troedyrhiw. Yn dilyn trafodaeth am y ffaith nad oeddem yn talu am ddefnyddio'r **ysgol penderfynwyd** talu £10 y tro i'r Capel yn unol â'r hyn ry' ni'n talu i Felinfach a Dihewyd.
d. Dosbarthwyd ffurflenni Gwobr y Gymuned 2025 i'w dychwelyd yn y cyfarfod nesaf.
e. **Golau Bank Villa SL38 336**. Wedi neud cais unwaith eto am ail osod y golau ond gan mai ar gais y perchennog tynwyd y lamp nid oes modd ei ail osod yn y man honno. Mae'r Cyngor Sir wedi gofyn am archwiliad gan National Grid I i weld os oes yna llinellau pŵer gerllaw, o dan y ddaear, i fedru gosod lamp mewn man cyfagos.
f. Ar gais y Cyng. Hywel Ifans, penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor sir unwaith eto am y posibilrwydd o osod golau rhwng y Neuadd a phentre Dihewyd.
g. Ar gais y Cyng. Lyn Williams penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir am ail osod golau stryd y tu fas i Gapel Cribyn
h. Ar gais y Cyng. Alan Henson,penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i ddiogelu'r ffordd rhwng Tan-y-Bryn Cribyn a Troed Y Bryn, Cribyn,SA48 7QH.
i. Ar gais y Cyng. Haf Hughes, penderfynwyd gofyn i Gan Bwyll am y rheolau parthed arwyddion atgoffa 20mya mewn pentrefi gan fod aelod o'r cyhoedd wedi codi'r cwestiwn.
j. Nodwyd bod arwydd Felinfach wedi ei godi gan y contractwyr.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Tachwedd 11eg yn Neuadd Felinfach – i'w gadarnhau